OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 3285 (Cy.249) (C.140)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU
IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU
GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Gorchymyn Cychwyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Rhif 3) (Cymru) 2005

Wedi'i wneud	- -	*29 Tachwedd 2005*
Yn dod i rym	- -	*30 Rhagfyr 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 199(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cychwyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Rhif 3) (Cymru) 2005.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "Deddf 2003" yw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.

Diwrnodau penodedig

2.—(1) O ran Cymru 30 Rhagfyr 2005 yw'r diwrnod a bennwyd i adran 117 o'r Ddeddf ddod i rym.

(2) 1 Ebrill 2006 yw'r diwrnod a bennwyd i ddarpariaethau canlynol Deddf 2003 ddod i rym—

(a) adrannau 114(3) a (4) o ran Cymru ac i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym(**2**);

(b) adran 116(2); ac

(c) adrannau 107, 114(5), 115(1), (2), (4), (5) a (6) a 116(3) o ran Cymru.

(**1**) 2003 p. 43. Rhoddir y pwerau i'r awdurdod priodol. Gweler adran 199(2) am y diffiniad o "appropriate authority" at ddibenion adran 199(1).

(**2**) *Gweler* adran 199(4) o Ddeddf 2003.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

D. Elis-Thomas
29 Tachwedd 2005 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p. 38.

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Hwn yw'r trydydd gorchymyn cychwyn a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 ("y Ddeddf"). Mae'n dod â darpariaethau penodol y Ddeddf o ran Cymru i rym ar naill ai 30 Rhagfyr 2005 neu 1 Ebrill 2006, fel a bennir.

Mae erthygl 2(1) yn dwyn i rym ar 30 Rhagfyr adran 117 o'r Ddeddf sy'n estyn y ddyletswydd sydd ar awdurdodau lleol o ran ystyried sylwadau i gynnwys sylwadau a wneir ynghylch gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig.

Mae erthygl 2(2)(a) yn dwyn i rym rannau o adrannau 114 a 115 sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â rheoliadau y caiff y Cynulliad eu gwneud ynghylch ymdrin â chwynion am wasanaethau cymdeithasol ac ynghylch eu hystyried.

Mae erthygl 2(2)(b) yn cychwyn adran 116(2) sy'n mewnosod adran 26ZB yn Neddf Plant 1989.

Mae erthygl 2(c) yn cychwyn o ran Cymru, adran 107, sy'n mewnosod cartref plant sy'n darparu llety diogel yn y diffiniad o sefydliadau yn Neddf Safonau Gofal 2000. Mae hefyd yn cychwyn, o ran Cymru, adran 116(3) sy'n mewnosod adran 26(2A) yn Neddf Plant 1989 a thrwy hynny'n estyn y gofyniad sydd ar awdurdodau lleol i ddarparu cymorth i bersonau sy'n gwneud sylwadau o dan adran 24D neu 26 o'r Ddeddf honno i gynnwys ystyriaeth bellach o'r sylwadau hynny.

NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Cafodd darpariaethau Deddf lechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 sydd wedi'u rhestru yn y tabl isod eu dwyn i rym yng Nghymru gan orchmynion cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn. Mae'r darpariaethau a gychwynnwyd gan O.S. 2003/3346 ac O.S. 2004/759 wedi'u cychwyn o ran Cymru a Lloegr. Mae'r darpariaethau a gychwynnwyd gan O.S.2004/480 (Cy.49) ac O.S.2004/873 (Cy.88) wedi'u cychwyn o ran Cymru.

Y ddarpariaeth	*Y dyddiad cychwyn*	*Rhif O.S.*
Adran 1	1.4.2004	2004/759
Adrannau 2 i 4	1.1.2004	2003/3346
Adrannau 5 i 20	1.4.2004	2004/759
Adrannau 22 i 35	1.4.2004	2004/759
Adran 36	1.1.2004	2003/3346
Adrannau 37 i 39	1.4.2004	2004/759
Adran 40	1.1.2004	2003/3346
Adran 41	8.1.2004	2003/3346
Adran 43	11.3.2004	2004/759
Adran 44	1.4.2004	2004/759